# POLISI CAM-DRIN DOMESTIG

Dyddiad Cychwyn: 09/ 2023

Dyddiad Adolygu Diwethaf: 09/2023

Dyddiad Adolygu Nesaf: 09/2026

Perchennog y Polisi: Gwasanaethau Bro

Pwynt Cyswllt y Polisi: Geraint Jones, Rheolwr Gwasanaethau Bro

**CYNNWYS**

1. **CWMPAS/PWRPAS**

2. **MANYLION Y POLISI**

3. **GWEITHDREFNAU**

4. **CWYN**

5. **ADOLYGU PENDERFYNIAD**

6. **CYFRIFOLDEBAU A THREFNIADAU**

7. **DIFFINIADAU**

8. **DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG**

9. **COFNOD O ADOLYGIADAU I'R BROSES HON**

10. **CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**

11. **GDPR**

12. **ATODIAD**

## 1.0 CWMPAS / PWRPAS

1.1 Mae cam-drin domestig yn un o brif faterion sy'n wynebu cymdeithas heddiw ac yn un o'r rhesymau pennaf dros ddigartrefedd. Mae'n anodd gwybod beth yw gwir raddfa'r broblem gan fod llawer yn dewis peidio adrodd am gam-drin domestig. Mae cael a rhoi polisi ar waith i gynorthwyo preswylwyr a effeithir gan gam-drin domestig yn un o addewidion 'Make a Stand'; cafodd yr ymgyrch ei sefydlu i annog cymdeithasau tai i ymrwymo i gynorthwyo pobl sy'n profi cam-drin domestig.

1.2 Pwrpas y polisi hwn yw:

- rhoi diffiniad eglur o gam-drin domestig
- nodi sut y mae Adra (Tai) Cyfyngedig yn cynorthwyo preswylwyr a staff sydd, neu sydd o bosib, yn cael eu heffeithio gan gam-drin domestig i'w cadw'n ddiogel a chynnal eu contract.
- sicrhau bod cyfleoedd i ganfod cam-drin domestig i osgoi cam-driniaeth pellach ac nad yw cyfleoedd i ganfod risg i blant yn cael eu colli.
- sicrhau cysondeb o ran darparu gwasanaeth wrth ymateb i faterion cam-drin domestig.
- lleihau effaith ariannol ar Adra o ddifrod troseddol i'r stoc dai, ôl ddyled rhent, ymyriadau ymddygiad gwrthgymdeithasol, troi allan, ac ail osod a chostau contract newydd.

1.3 Mae'r polisi hwn yn gymwys ar gyfer pob deiliad contract cyfredol a darpar ddeiliaid a phreswylwyr eiddo y mae Adra yn berchen arnynt.

## 2.0 MANYLION Y POLISI

2.1 Mae cam-drin domestig yn digwydd ar draws y gymdeithas heb ystyriaeth i oed, rhyw, ethnigrwydd, rhywioldeb neu gefndir a gall gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r mathau canlynol o ymddygiad:

- Trais corfforol neu rywiol, stelcio ac aflonyddu
- Cam-drin ariannol
- Cam-drin emosiynol neu seicolegol
- Ymddygiad rheoli gorfodol

Mae mwy o fanylion am y mathau o gam-drin domestig ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru Byw Heb Ofn - Mathau o Gam-driniaeth

2.2 Nid yw cam-drin domestig yn dderbyniol. Ni ddylid gweld bai ar unrhyw un sy'n profi trais domestig a cham-driniaeth ac nid ydynt ar eu pennau eu hunain.

2.3 Byddwn yn blaenoriaethu cymorth i ddeiliaid contract sy'n profi cam-drin domestig.

2.4 Mae Adra wedi llofnodi'r adduned 'Make a Stand' ac wedi ymrwymo i:

- Gyflwyno a rhoi polisi ar waith i gynorthwyo preswylwyr a effeithir gan gam-drin domestig
- Drefnu bod gwybodaeth am wasanaethau cymorth cam-drin domestig cenedlaethol a lleol ar gael ar ein gwefan ac mewn mannau priodol eraill fel eu bod ar gael yn rhwydd i breswylwyr a staff.
- Roi polisi AD ar waith, neu addasu polisi presennol, i gefnogi aelodau o staff sydd efallai'n profi cam-drin domestig.
- Benodi pencampwr ar lefel uchel yn y sefydliad i fod yn berchen ar weithgareddau yr ydym yn eu cynnal i gynorthwyo pobl sy'n profi cam-drin domestig.

## 3.0 GWEITHDREFNAU

### 3.1 Cynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin domestig

3.2 Bydd Adra yn codi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig drwy hyrwyddo ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol. Ymgyrchoedd Byw Heb Ofn

3.3 Bydd Adra yn sicrhau bod ei wefan yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau cam-drin domestig cenedlaethol

Bydd Adra yn sicrhau bod staff penodol wedi'u hyfforddi i adnabod yr arwyddion a symptomau cam-drin domestig a theimlo'n hyderus i ofyn i bol os ydyn yn cael eu heffeithio gan gam-drin domestig a chyfeirio pobl at y gwasanaethau cymorth arbenigol priodol. Bydd hyn yn cynnwys annog pobl i adrodd ar yr hyn sydd wedi digwydd iddynt i'r heddlu. Bydd hyfforddiant yn cynnwys deall y rhwystrau i ddatgelu Cam-drin Domestig.

### 3.4 Canfod aelwydydd ble mae cam-driniaeth yn digwydd cyn gynted â phosib

3.5 Mae Adra yn gweithio gyda nifer o asiantaethau ac mae'n gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau cefnogol arbenigol i sicrhau bod gan staff lwybrau cyfeirio clir ar gyfer unigolion sy'n profi cam-drin domestig a'r sawl sy'n cyflawni'r drosedd unwaith y mae'r cam-drin wedi ei adnabod neu ei ddatgelu.

3.6 Cynrychiolir Adra yng nghyfarfod misol cam-drin domestig, sef, MARAC (Multi Agency Risk Assessment Conference) ar gyfer Gwynedd a Môn sy'n cael ei gydlynu gan Heddlu Gogledd Cymru. Byddwn yn adolygu rhestrau wythnosol a rennir gan Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn Heddlu Gogledd Cymru (PVPU).

3.7 Mae Adra wedi cytuno ac arwyddo Protocolau Rhannu Gwybodaeth (ISP) MARAC ym mhob un o'r siroedd canlynol lle mae gan Adra eiddo: Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Wrecsam.

3.8 Bydd Adra yn gofyn i ddeiliaid contract newydd am gam-drin domestig fel mater o drefn ac yn sensitif i ystyried unrhyw fesurau diogelwch sydd eu hangen.

3.9 Byddwn yn adolygu hanes tai ymgeiswyr yn rheolaidd. Pan nodir bod ymgeiswyr llwyddiannus yn ddioddefwyr cam-drin domestig, byddwn yn cysylltu ar ôl gosod yr eiddo i gynnig cyngor a chymorth.

**3.10 Ymdrin â digwyddiadau Cam-drin Domestig**

3.11 Bydd Adra yn adolygu pob adroddiad o gam-drin domestig yr ydym yn dderbyn, boed yn atgyfeiriad uniongyrchol neu anuniongyrchol a bydd yn darparu ymateb sensitif a phriodol yn unol â gweithdrefnau diogelu.

3.12 Bydd Adra yn rhoi cyfle i bobl sy'n profi cam-drin domestig i gael aelod o staff o'r un rhyw a nhw i ymdrin â'u hachos. Byddwn yn sicrhau bod unigolion yn gwybod y gallent gyfarfod gyda staff yn gyfrinachol yn ein swyddfeydd neu mewn rhywle diogel arall sydd wedi'i gytuno. Byddwn hefyd yn cytuno ar ffordd o gysylltu y mae'r unigolyn yn dymuno ei ddefnyddio er mwyn cadw mewn cysylltiad efo nhw.

3.13 Ni fydd Adra yn feirniadol a bydd yn derbyn cyfrif yr unigolyn o'r hyn sydd wedi digwydd. Byddwn yn cydnabod efallai nad yw tystiolaeth o gam-drin domestig o ffynonellau eraill, ar wahân i'r unigolyn sy'n profi cam-driniaeth ar gael e.e. gan gymydog. Fodd bynnag, efallai y bydd angen tystiolaeth os bydd achos cyfreithiol yn cael ei ddwyn.

**3.14 Cymorth a Chefnogaeth Gychwynnol**

3.15 Bydd pob pryder am ddiogelwch (ble tybir bod plentyn neu oedolyn yn profi neu mewn risg o gamdriniaeth neu esgeulustod neu fathau eraill o niwed) yn cael ei drin yn unol â pholisi Diogelu Adra. a byddwn yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

3.16 Bydd ffurflen Datgelu Cam-drin Domestig Adra yn cael ei defnyddio i sicrhau bod ein hymatebion cychwynnol yn gyflawn a chywir a bod cynllun diogelwch cychwynnol ar waith.

3.17 Bydd staff Adra sydd wedi'u hyfforddi yn cynnal asesiad risg gan ddefnyddio'r rhestr wirio adnabod risg Cam-drin Domestig, Stelcio a Thrais ar sail Anrhydedd (DASH-RIC), gyda chytundeb y dioddefwr ble bynnag sy'n bosib pan gaiff achos o gam-drin drin domestig ei ddatgelu yn uniongyrchol i ni. Os ydi'r canlyniad yn cyrraedd y trothwy, neu os ydyw yn cyrraedd y trothwy ym marn broffesiynol y swyddog, caiff atgyfeiriad CARA ei wneud.

3.18 Ble nad yw'r DASH-RIC yn cyrraedd y trothwy, gyda chytundeb yr unigolyn sy'n profi cam-drin domestig, byddwn yn sicrhau bod cymorth yn cael ei roi gan gyfeirio i'r llefydd priodol.

**3.19 Rheoli achos**

3.20 Bydd cofnodion o’r digwyddiadau a adroddwyd, a'r gweithrediadau gymerwyd yn cael eu cadw yn ddiogel yn System Busnes Craidd Adra.

3.21 Bydd yr holl dystiolaeth sy'n gysylltiedig â’r achos yn cael ei gofnodi gyda’r nodiadau achos yn cynnwys manylion digwyddiadau unigol, atgyfeiriadau DASH-RIC, atgyfeiriadau i a gan MARCA, atgyfeiriadau gan asiantaethau eraill, llwybrau atgyfeirio a ddilynwyd, holl gymorth a gynhigiwyd, a dull cysylltu diogel sy’n cael ei ffafrio.

3.22 Bydd y rheolwyr perthnasol yn archwilio achosion cam-drin domestig i sicrhau bod yr wybodaeth a gofnodwyd yn gyflawn ac nad yw achosion yn cael eu cau yn amhriodol.

**3.23 Mynd i’r afael gydag ymddygiad y cyflawnwyr**

3.24 Ni fydd Adra yn goddef cam-drin domestig gan denant neu yn erbyn ei ddeiliaid contract neu breswylwyr eraill yn ein heiddo. Rydym yn cydnabod bod cam-drin domestig yn drosedd ac mae’n golygu bod amodau’r contract wedi’u torri.

3.25 Bydd y sawl sy’n cyflawni’r drosedd yn cael eu dal yn atebol mewn unrhyw weithred ymddygiad gwrthgymdeithasol lle bo’n bosib gwneud hynny heb amharu ar ddiogelwch yr unigolyn sy’n cael ei gam-drin. Caiff achosion o’r fath eu trin yn unol â pholisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Adra ac efallai y bydd yn arwain at droi allan, neu ble mae’r cyflawnwr yn ddeiliaid contract ar y cyd, gwneud cais am feddiant i’r Llys i roi terfyn ar hawliau a rhwymedigaethau’r cyflawnwr o dan y contract, neu orchmynion gwaharddeb a/neu waharddiad atal

3.26 Lle bo’n briodol, amcan Adra yw atal y cam-drin domestig rhag digwydd eto a chyfeirio’r cyflawnwr, gyda’u cytundeb, at yr asiantaethau cefnogol perthnasol ynghyd â darparu cefnogaeth gan ein swyddogion hyfforddedig ein hunain.

3.27 Bydd Adra yn cefnogi ymgyrchoedd i addysgu pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad a dysgu sgiliau newydd a fydd yn eu galluogi i gael perthnasau iach.

**3.28 Cymorth pellach**

3.29 Bydd Adra yn ystyried ystod o opsiynau sydd ar gael yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol. Yn bwysicaf oll byddwn yn parchu dymuniadau'r unigolyn ac yn pwysleisio ein cefnogaeth a'n empathi i'w sefyllfa . Gall yr opsiynau sydd ar gael i ni gynnwys:

- Cytuno ar y camau nesaf gyda’r unigolyn, monitro'r sefyllfa ac adolygu yn aml a bod y ffordd o gysylltu yn cael ei gytuno gyda nhw.
- Cynorthwyo ble bynnag bo'n bosib gyda gwneud y llety yn fwy diogel, asesu mesurau diogelwch ychwanegol mewn partneriaeth â'r Heddlu ac asiantaethau arbenigol eraill er mwyn galluogi'r unigolion sy’n profi cam-driniaeth i aros yn ddiogel yn y cartref. Mae enghreifftiau o'r pethau y bydd Adra yn ystyried eu gweithredu yn cynnwys: gosod drws mewnol cryfach gyda chlo i greu ystafell ddiogel; gosod cadwyn drws; gosod goleuadau allanol; newid cloeon drws.
- Rhoi cyngor rheolaeth tai wedi’i anelu at gynnal y contract ac osgoi digartrefedd.

- Atgyfeirio i'n tîm Rhent ac Incwm, neu asiantaethau allanol fel CAB neu Shelter, ar gyfer unrhyw gymorth gofynnol yn ymwneud â materion ariannol.
- Cynorthwyo'r unigolyn i hysbysu'r heddlu o ddigwyddiadau os ydynt yn teimlo'n rhy ofnus i adrodd ar hynny eu hunain a chynorthwyo tystion drwy gydol yr ymchwiliad ac unrhyw weithred bellach a all godi.
- Cynghori ar asiantaethau allanol sy'n gallu cynnig cyngor a chymorth pellach yn ddibynnol ar eu hanghenion, a gweithio â'n partneriaid i sicrhau gwasanaeth wedi'i gydlynu i flaenoriaethu diogelwch yr unigolyn sy'n profi cam-driniaeth a diogelwch eu plant, os oes yna blant.
- Cyfeirio at sefydliadau perthnasol i ddarparu cyngor cyfreithiol fel sy'n briodol, yn arbennig, os ydi'r unigolyn yn dymuno dwyn achos cyfreithiol ei hun a datrys y sefyllfa o dan y Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 a Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997. Mae datrysiadau sydd ar gael yn cynnwys gorchymyn peidio ag ymyrryd, gorchymyn meddiannaeth, a gorchymyn atal.
- Gweithio gyda'r Heddlu ac asiantaethau eraill i ddefnyddio pwerau cyfreithiol, gan gynnwys, ble'n briodol, darpariaethau o dan y ddeddfwriaeth berthnasol i gael gwaharddeb (Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014) yn erbyn a neu i wahardd neu droi allan (Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016) troseddwyr cam-drin domestig, neu ble mae'r cyflawnwr yn ddeiliad contract ar y cyd, gwneud cais am orchymyn Llys i roi terfyn ar hawliau a rhwymedigaethau'r cyflawnwr o dan y contract.
- Os yw'r unigolyn yn mynegi dymuniad i symud, dylid egluro am drosglwyddiadau, trefniadau o'r ddwy ochr a throsglwyddo i ddeiliaid contract diogel eraill (cyfnewid). Cyfeirio at y tîm Opsiynau Tai perthnasol a chefnogi'r unigolyn i wneud cais am dŷ i sicrhau eu bod yn cael eu gosod yn y band uchaf oherwydd eu bod yn profi cam-drin domestig.
- Cyfeirio'r achos at y Tîm Digartrefedd ble mae angen llety dros dro brys, neu ble mae risg posib i gontract yr unigolyn.
- Efallai y bydd Adra mewn amgylchiadau eithriadol yn defnyddio ei ddisgresiwn yn unol ag Adran 159(5) o Ddeddf Tai 1996 i drosglwyddo tenant tu allan i'r Polisi Gosod Tai Cyffredin. Enghraifft o hyn fyddai mewn achosion lle mae tenant i Adra yn oroeswr cam-drin domestig a bod angen eu symud er mwyn bod yn ddiogel.

### 3.29 Cefnogaeth i Gwynwyr

Bydd Adra yn darparu cyngor priodol i unrhyw un sy'n adrodd ar gam-drin domestig yn unrhyw un o'n heiddo.

## 4.0 Cwynion

4.1.1 Mae Adra yn cydnabod eich hawl i gyflwyno cwyn mewn cysylltiad ag arfer y polisi hwn. Bydd unrhyw gŵyn o'r fath yn cael ei thrin o dan CCpol01c - Polisi Cwynion a Phryderon.

## 5.0 ADOLYGU PENDERFYNIAD

5.1 Mae Adra yn cydnabod yr hawl i ofyn am adolygu unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â'r polisi hwn. Bydd unrhyw adolygiad o'r fath yn cael ei drin yn dilyn ein proses Adolygu Penderfyniad - CCp04c.

5.2 Bydd Adra yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau sy'n berthnasol i'r polisi hwn yn rhesymol ac yn cydymffurfio â pholisi a deddfwriaeth berthnasol.

## 6.0 CYFRIFOLDEBAU A THREFNIADAU

| Rôl | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chymunedau | Sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei gymhwyso'n effeithiol, a bod staff yn cael eu hyfforddi'n briodol yn yr egwyddorion a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r polisi. |
| Holl staff | Adnabod arwyddion a symptomau cam-drin domestig a chyfeirio unigolion at yr asiantaeth gynorthwyol briodol |
| Staff Gwasanaethau Bro | Defnyddio'r rhestr wirio Cam-drin Domestig i sicrhau bod unigolion yn ddiogel ac yn gallu cynnal eu contract |

## 7.0 DIFFINIADAU

7.1 Diffiniad llywodraeth y DU o gam-drin domestig a thrais yw:

*'Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad o reoli, gorfodi neu fygwth, trais neu gam-drin rhwng rhai dros 16 mlwydd oed sydd wedi neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu aelodau teulu er gwaethaf eu rhyw neu rywioldeb. Gall y cam-driniaeth gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i gam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol, emosiynol.'*

Mae polisi Adra yn cyfeirio at 'gam-drin' domestig i gydnabod bod ei effaith yn mynd tu hwnt i drais corfforol. Bydd dogfennau lleol a chenedlaethol eraill yn cyfeirio at naill ai trais domestig a/neu gam-drin domestig.

7.2 Mathau ac enghreifftiau o gam-drin domestig: Byw Heb Ofn - Mathau o Gam-driniaeth

7.3 DAHA – Domestic Abuse Housing Alliance Gwefan DAHA

7.4 DASH-RIC - rhestr wirio adnabod risg Cam-drin Domestig, Stelcio a Thrais ar sail anrhydedd Dash risk checklist with quick start guidance

7.5 MARAC – Cynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaethol

## 8.0 DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG

8.1 Deddf Cyfraith Teulu 1996

8.2 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

8.3 Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997

8.4 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014

8.5 Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015,

8.6 Llywodraethu Cymru - Gwefan Byw heb Ofn

8.7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,

8.8 Y Swyddfa Gartref - Canllaw: trais a cham-drin y glasoed yn erbyn rhieni (APVA)

8.9 DAHA Accreditation

8.10 Safe Lives Ending domestic abuse website

8.11 Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Adra (NSpol01c)

8.12 Polisi Diogelu Grwpiau Bregus Adra (H&Spol34c)

8.13 Rhestr Wirio Datgelu Cam-drin Domestig Adra

8.14 NSp22c Proses Trin Achosion Cam-drin Domestig

## 9.0 COFNOD O ADOLYGIADAU I'R BROSES HON

| Rhifyn | Dyddiad | Sylwadau (Beth sydd wedi'i adolygu?) | Ysgrifennwyd gan | Cymeradwyo ar gyfer cynnwys |
|---|---|---|---|---|
| Rhifyn 0 | 09/13 | Dyddiad adolygu'r 18 Mawrth 2010 - adolygiad 3 blynedd | Mari Pritchard | |
| Rhifyn 1 | 06/16 | Adolygu polisi dyddiedig 09/13 ac mewn ymateb i ddeddfwriaeth newydd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 | Mari Pritchard | |
| Rhifyn 2 | 06/19 | Adolygiad 3 blynedd i gynnwys arferion gorau ar gyfer cymdeithasau gan DAHA a Safe Lives a chynnwys ymrwymiad i ymgyrch CIH 'Make a Stand' | Geraint Jones | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhifyn 3 | 10/19 | Diweddariad i adlewyrchu brandio Adra | Geraint Jones | |
| Rhifyn 4 | 09/23 | Adolygiad llawn 3 mlynedd a newid mewn terminoleg yn unol â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 | Geraint Jones & Arwyn Roberts | |

## 10.0 CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

10.1 Bydd Adra yn cynorthwyo’r unigolion hynny sy’n profi cam-drin domestig beth bynnag yw eu hoed, rhyw, rhywioldeb, anabledd, ethnigrwydd, crefydd, cefndir cymdeithasol neu unrhyw nodweddion eraill sy’n cael eu nodi yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

10.2 Bydd Adra yn ymwybodol o sut y gall crefyddau a chredoau effeithio ar barodrwydd unigolyn i adrodd ar gam-drin domestig ac yn defnyddio adnoddau cyfieithu fel sy’n briodol ac yn unol â'r angen ble nad yw’r Deiliad Contract yn gallu siarad Cymraeg neu Saesneg yn rhugl.

## 11.0 Y RHEOLIAD CYFFREDINOL AR DDIOGELU DATA (GDPR)

11.1 Bydd Adra yn sicrhau cyfrinachedd wrth ymdrin ag achosion o gam-drin domestig ond efallai y bydd yn rhannu gwybodaeth ag asiantaethau partner e.e. MARAC yn unol â deddfwriaeth berthnasol a phrotocolau y cytunwyd arnynt ac yn unol â H&Spol34c - Polisi Diogelu Grwpiau Bregus.